RHESTR WIRIO / FFURFLEN MANYLION POLISI
POLICY INFORMATION SHEET / CHECKLIST

| | |
|---|---|
| Teitl y Polisi: | *Polisi Moeseg Ymchwil Academaidd ym maes Addysg Uwch* |
| Perchennog y Polisi: | *James Nelson* |
| Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb: | *James Nelson* |
| Pwrpas: | Nod cyffredinol y polisi yw sicrhau bod pob ymchwil a wneir yng Ngrŵp Llandrillo Menai (GLlM) yn cydymffurfio â'r egwyddorion cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ymdrechu i wneud daioni ac osgoi gwneud drygioni.<br>Anela'r polisi at hyrwyddo rhagoriaeth o ran arferion moesegol, hybu ymchwil o safon uchel ac atal camymddwyn. Dylai pob gwaith ymchwil a wneir gan staff a myfyrwyr barchu pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwnnw, gan lynu at yr egwyddorion moesegol a amlinellir isod. |
| Cylch Adolygu: | *Bob dwy flynedd* |
| Rhestr Wirio i'w Chymeradwyo (cyfrifoldeb y Perchennog): | Dyddiad: |
| • Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad (ELD) | 19/02/2024 - 01/03/2024 |
| • Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer pythefnos o ymgynghoriad cychwynnol (AAH) | 19/02/2024 - 01/03/2024 |
| • Yr Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau | 21/09/2023 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Tîm Strategol | HEQASG - 04/03/2024 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol) | 13/03/2024 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol) | N/A |
| • Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol / SHE | OES |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor* | 12/03/2024 |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd | 25/04/2024 |

# POLISI GRŴP LLANDRILLO MENAI (GLlM) YNGHYLCH MOESEG YMCHWIL YM MAES ADDYSG UWCH

Cymeradwywyd y Polisi gan: PCMS
Dyddiad cymeradwyo'r Polisi: Tachwedd 2021
I'w adolygu: Tachwedd 2023

Cynnwys


| | Rhif Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 4 |
| 2. Cyfrifoldebau Cyffredinol | 6 |
| 3. Caniatâd | 8 |
| 4. Ystyriaethau Pellach | 10 |
| 5. Camymddwyn mewn perthynas ag Ymchwilio | 11 |
| 6. Gweithdrefnau, Templedi ac Arweiniad | 12 |

## 1. Cyflwyniad

Nod cyffredinol y polisi yw sicrhau bod pob ymchwil a wneir yng Ngrŵp Llandrillo Menai (GLlM) yn cydymffurfio â'r egwyddorion cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ymdrechu i wneud daioni ac osgoi gwneud drygioni.

Anela'r polisi at hyrwyddo rhagoriaeth o ran arferion moesegol, hybu ymchwil o safon uchel ac atal camymddwyn. Dylai pob gwaith ymchwil a wneir gan staff a myfyrwyr barchu pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwnnw, gan lynu at yr egwyddorion moesegol a amlinellir isod.

I bwrpas y polisi hwn, cyfeiria'r term "ymchwil" at y diffiniad a ddefnyddir yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 ac mae'n cynnwys unrhyw weithgaredd sy'n golygu casglu data gan neu am bobl neu anifeiliaid, gan gynnwys ymchwiliadau bychain a gynhelir yn rhan o asesiadau ffurfiannol neu grynodol mewn modiwl.

Yn y Polisi, ceir:

- Egwyddorion y dylid eu dilyn wrth wneud pob gwaith ymchwil
- Safonau mewn perthynas ag ymchwilio
- Gweithdrefnau ar gyfer adolygu ymchwil arfaethedig

### 1.1 Cwmpas

Mae'r polisi'n berthnasol i holl staff GLlM, holl fyfyrwyr israddedig GLlM a'r myfyrwyr ôl-radd sy'n dilyn rhaglenni Addysg Uwch a ddilyswyd drwy GLlM neu sefydliadau Addysg Uwch/Cyrff Dyfarnu eraill. Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i unrhyw barti allanol sydd am gynnal ymchwil yn GLlM.

### 1.2 Egwyddorion

Mae GLlM yn cadw at God Ymarfer Swyddfa Uniondeb Ymchwil y Deyrnas Unedig (UKRIO)(2009). Dylai pawb y dynodwyd eu bod yn dod o fewn terfynau'r polisi hwn ddilyn yr egwyddorion hyn wrth gynnal eu hymchwil. Mae'r Egwyddorion, fel y'u diffiniwyd gan UK RIO(2009), wedi'u cynnwys yn Atodiad 3 a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

RHAGORIAETH: Dylid anelu at y safon uchaf wrth gynllunio'r ymchwil, wrth gynnal yr ymchwil ac wrth ledaenu'r canlyniadau.

GONESTRWYDD: dylai ymchwilwyr fod yn onest ym mhob agwedd ar eu hymchwil, gan ofalu bod y canlyniadau'n gywir ac y lledaenir y canfyddiadau. Ni ddylai ymchwilydd gamymddwyn na chelu camymddygiad pobl eraill.

DIDWYLLEDD: dylai ymchwilwyr fod yn gyfarwydd â'r meini prawf cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i'w maes astudio penodol, a dylent gadw at yr egwyddorion hynny wrth gynnal eu hymchwil.

CYDWEITHIO: dylai GLlM roi cyfle i ledaenu arferion da a hyrwyddo rhannu ymchwil ac ysgolheictod, a dylid annog ymchwilwyr i gyfrannu i'r drafodaeth hon.

ATEBOLRWYDD: dylai pob ymchwil gael ei oruchwylio gan staff sydd â chymwysterau priodol, a rhaid i'r ymchwilydd gadw at unrhyw ganllawiau a bennwyd gan eu corff proffesiynol eu hunain yn eu maes ymchwilio, gan gynnwys aelodau proffesiynau rheoledig sy'n gorfod cadw at eu rheolau proffesiynol eu hunain.

HYFFORDDIANT A SGILIAU: Dylai GLlM ddarparu cefnogaeth ar lefel briodol i staff, gan gynnwys cyfle i nodi anghenion hyfforddi penodol a darparu datblygiad staff i fynd i'r afael ag anghenion o'r fath.

Dylai ymchwilwyr hefyd sicrhau eu bod yn gymwys ac yn gymwysedig i gynnal yr ymchwil arfaethedig.

**DIOGELWCH:** mae diogelwch pawb sy'n ymwneud ag ymchwil (gan gynnwys yr ymchwilydd) yn hollbwysig, a rhaid i ymchwilwyr ddangos y bydd eu hymchwil yn deillio ar fanteision a fydd yn gorbwyso unrhyw risgiau y gellir eu cyfiawnhau.

### 1.3 Safonau

Mae GLlM yn disgwyl i fyfyrwyr, staff ac ymchwilwyr eraill sydd dan ei awdurdod fod yn gyfarwydd â'r Safonau a geir yng Nghod Ymarfer UKRIO a chydymffurfio â'r safonau hynny. Mae'r canllawiau hyn yn crynhoi'r prif bwyntiau a geir yng Nghod UKRIO.

### 1.4 Canllaw Cyffredinol ar Ymarfer Da wrth Ymchwilio:

Mae UKRIO'n nodi y dylai ymchwilwyr:

a) wybod bod ganddynt gyfrifoldeb i gynnal safonau moesegol uchel wrth ymchwilio;
b) bod yn ymwybodol o bolisïau a threfnau eu sefydliad (h.y. GLlM) mewn perthynas ag arferion da wrth ymchwilio;
c) sicrhau bod eu hymchwil yn cydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn, a gofyn am arweiniad gan eu sefydliad pan fydd angen;
d) gweithio gyda'u sefydliad i sicrhau bod ganddynt yr hyfforddiant, yr adnoddau a'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol i gynnal eu hymchwil; ac
e) awgrymu i'w sefydliad sut y gellid datblygu neu adolygu'r canllawiau ar arferion da ym maes ymchwil.

(UK RIO, 2009, tud.10)

### 1.5 Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill GLlM

Cyfeiria'r polisi hwn at y polisïau a'r gweithdrefnau canlynol sydd gan GLlM:

- Polisi GLlM o ran Diogelu Data
- Polisi GLlM o ran Iechyd a Diogelwch
- Polisi GLlM ar Hawliau o ran Eiddo Deallusol ym maes Addysg Uwch
- Polisi GLlM o ran Hawlfraint
- Polisi GLlM o ran Arferion Annheg
- Polisi GLlM o ran Disgyblu Staff
- Polisi GLlM o ran Disgyblu Dysgwyr

Mae'r polisïau ar gael i fyfyrwyr yma:
https://www.gllm.ac.uk/cy/our-policies
https://www.gllm.ac.uk/cy/our-policies/higher-education-policies-and-procedures

Mae polisïau eraill ar gael i staff a goruchwylwyr
yma: https://gp.gllm.ac.uk/policies.aspx

## 2. Cyfrifoldebau Cyffredinol

### 2.1 Goruchwylio

Dylai staff GLlM sy'n gyfrifol am oruchwylio ymchwil (gan staff a/neu fyfyrwyr) sicrhau eu bod yn hollol gyfarwydd â Pholisi GLlM o ran Moeseg Ymchwil ym maes Addysg Uwch ac yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod ganddynt y sgiliau, yr hyfforddiant, yr amser a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i weithredu mewn swyddogaeth oruchwylio;
- Gofyn am gymorth a datblygiad proffesiynol pan fydd angen;
- Rhoi gwybod i'r sawl y maent yn ei oruchwylio bod gofyn cadw at y Polisi Moeseg Ymchwil Academaidd ym maes Addysg Uwch;
- Sicrhau bod y sawl a oruchwylir yn cael gwybod lle mae'r holl ddogfennau perthnasol i'w cael;
- Bod yn 'borthgeidwad' ceisiadau myfyrwyr i'r Pwyllgor Moeseg Academaidd (PMA).

### 2.2 Hyfforddiant a datblygiad staff/myfyrwyr

Dylai ymchwilwyr sicrhau bod ganddynt y sgiliau, yr hyfforddiant, yr amser a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gynnal eu hymchwil. Dylai myfyrwyr drafod eu hanghenion datblygu gyda'u goruchwylydd. Dylai staff darfod eu hanghenion datblygu gyda'u rheolwr llinell, gan wneud cais am hyfforddiant a/neu ddatblygiad staff fel y bo'n briodol.

### 2.3 Cydweithio

Mae gofyn bod yn arbennig o ofalus wrth gydweithio e.e. pan fydd dau neu ragor o ymchwilwyr neu sefydliadau'n cydweithio.

Ymhlith y prif feysydd y dylid eu hystyried, mae:

- Polisïau, gweithdrefnau ac arferion sefydliadau unigol mewn perthynas â moeseg ymchwil;
- Cydsyniad priodol gan sefydliadau;
- Defnyddio cyfranogwyr o wledydd eraill neu wneud gwaith mewn gwledydd eraill (rhaid i ymchwilwyr fod yn gwbl gyfarwydd â materion cyfreithiol a moesegol ychwanegol);
- Safonau a threfnau a ddiffiniwyd yn glir mewn perthynas ag ymchwilio ar y cyd, fel y'u nodir yng nghanllawiau UKRIO;
- Egluro rolau, cyfrifoldebau, materion yn ymwneud ag awduraeth a pherchnogaeth hawliau'r rhai a fydd yn cymryd rhan mewn perthynas ag eiddo deallusol, cyn i'r ymchwil ddechrau;
- Egluro lefelau cyfrinachedd mewn perthynas â chanfyddiadau ymchwil.

### 2.4 Gwrthdaro Buddiannau

Rhaid datgan unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro a mynd i'r afael a hwy cyn dechrau ymchwilio. Ni ddylid cynnal yr ymchwil os bydd gwrthdaro buddiannau'n effeithio ar ddibynadwyedd, dilysrwydd ac uniondeb yr ymchwil, oni bai bod dulliau diogelu ar gael ac wedi'u cofnodi'n glir mewn asesiad risg er mwyn sicrhau na cheir effaith andwyol ar y modd y cynhelir ac yr adroddir ar yr ymchwil.

### 2.5 Ymchwil sy'n cynnwys pobl (gan gynnwys data ynghylch pobl)

Yr ystyriaeth bwysicaf mewn unrhyw ymchwil sy'n cynnwys pobl yw na ddylai cymryd rhan yn yr ymchwil achosi niwed ac y dylai, lle bo hynny'n bosibl, fod o fudd i'r cyfranogwyr. Dylid gwarchod urddas, hawliau, diogelwch a lles cyfranogwyr bob amser.

Rhaid i bob ymchwil a wneir gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a moesegol a amlinellir yn Egwyddorion UKRIO. Rhaid i ymchwilwyr sy'n aelodau o broffesiwn rheoledig gydymffurfio â safonau a bennwyd gan eu proffesiwn.

Yn ogystal, dylai pob ymchwil a wneir gydymffurfio â'r canllawiau a'r codau ymarfer moesegol sy'n gysylltiedig â'r pwnc penodol sydd dan sylw. Dyletswydd yr ymchwilwyr yw sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r canllawiau hyn ac yn cadw atynt.

Os bydd ymchwilwyr yn teimlo y gallai pobl sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil fod mewn perygl y tu hwnt i'r hyn sy'n ddisgwyliedig mewn bywyd pob dydd, rhaid cynnwys hynny mewn asesiad risg. Dylai hyn hefyd gynnwys storio data personol mewn modd amhriodol (fel yr amlinellir ym Mholisi GLlM mewn perthynas â Diogelu Data).

**Mae'n hollbwysig cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – gweler https://www.gllm.ac.uk/gdpr/**

Mae Swyddfa Uniondeb Ymchwil (RIO) y Deyrnas Unedig wedi llunio rhestr wirio mewn perthynas ag ymchwilio, sy'n cynnwys y prif arferion da ac sy'n berthnasol i bob maes pwnc (gweler Atodiad 1).

**Ni ddylid cynnal unrhyw ymchwil hyd nes y bydd PMA yr adran wedi adolygu a chymeradwyo'r cais.**

Yn ystod yr ymchwil, mae'n hanfodol cadw at y cais a gymeradwywyd gan y PMA. Os bydd angen newid unrhyw agwedd ar yr ymchwil a gymeradwywyd yn wreiddiol gan y PMA e.e. nodau, lleoliad, trefn, math o sampl ac ati, rhaid cyflwyno Ffurflen Gais Moeseg Ymchwil (REAF) arall i PMA yr Adran, gan nodi'r newidiadau arfaethedig. Rhaid i'r PMA gymeradwyo hyn cyn y gellir gwneud unrhyw newidiadau i'r ymchwil.

## 3. Caniatâd

### 3.1 Caniatâd cyfranogwyr

Rhaid i gyfranogwyr gydsynio, ar sail gwybodaeth, i gymryd rhan mewn ymchwil. Yn ymarferol, golyga hyn bod gofyn rhoi gwybodaeth, a ysgrifennwyd mewn iaith ac arddull briodol, i'r cyfranogwyr. Dylai'r wybodaeth gynnwys y rhesymau dros gynnal yr ymchwil. Rhaid rhoi gwybod i'r cyfranogwyr:

- Beth fydd goblygiadau cymryd rhan;
- Crynodeb realistig o unrhyw fanteision a allai ddeillio o gymryd rhan;
- Datganiad priodol yn dweud bod gan y cyfranogwr hawl i beidio â chymryd rhan unrhyw bryd, heb roi rheswm a heb gosb;
- Sicrwydd y bydd eu cyfraniadau'n ddienw;
- Sut y defnyddir data, a gwybodaeth am sut y cedwir y data'n ddiogel.

Rhaid i ymchwilwyr hefyd ystyried y gall ofn canlyniadau gwrthod, neu awydd i blesio, effeithio ar barodrwydd cyfranogwyr i wirfoddoli, os oes cysylltiad eisoes yn bodloni rhyngddynt e.e. aelod o'r teulu, myfyriwr, tiwtor, cydweithiwr ac ati. Cyfrifoldeb yr ymchwilwyr yw sicrhau cyfranogwyr nad oes gorfodaeth arnynt i gydsynio.

### 3.2 Caniatâd Porthgeidwad

Yn ogystal â'r cydsyniad ar sail gwybodaeth sy'n angenrheidiol gan gyfranogwyr, mae'n bosibl y bydd gofyn cael caniatâd hefyd gan borthgeidwad e.e. coleg, ysgol, clwb ieuenctid, busnes, sefydliad ac ati, i gael mynediad at gyfranogwyr. Rhaid gofyn am ganiatâd y porthgeidwad i wneud hynny, gan ddarparu'r wybodaeth a nodwyd uchod.

### 3.3 Ymchwil sy'n cynnwys plant, pobl ifanc (dan 18 oed) ac oedolion agored i niwed

Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y bydd gofyn cael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rhaid i staff darfod hyn gyda'u rheolwr llinell, a rhaid i fyfyrwyr ofyn am gyngor eu goruchwylydd cyn cynnal ymchwil gyda'r grwpiau hyn.

Mae gofyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth (fel y nodwyd uchod) gan riant neu warcheidwad cyfreithiol, yn ogystal â'r plentyn/person ifanc/oedolyn agored i niwed (os yw hynny'n briodol).

Rhaid i'r ymchwilydd gyfiawnhau defnyddio plant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed yn eu hymchwil ac egluro pam na ellid cael ateb i gwestiwn yr ymchwil heb i'r grwpiau hyn gymryd rhan. Mae gofyn cymryd gofal mawr wrth ddefnyddio oedolion agored i niwed, ac ni ddylid cynnal yr ymchwil oni bai bod y PMA yn sicr ei bod yn hanfodol eu bod yn cymryd rhan er mwyn ateb y cwestiwn ymchwil ac y bydd yr holl ganllawiau cyfreithiol a moesegol yn cael eu dilyn yn ystod yr ymchwil. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl y gellir cael cyngor gan borthgeidwaid perthnasol neu gan awdurdodau statudol.

### 3.4 Cyfrinachedd a Bod yn Ddienw

Mae gofyn sicrhau cyfranogwyr na chânt eu henwi ac y cedwir eu data'n gyfrinachol. Ni ddylai ymchwilwyr ddatgelu enw cyfranogwyr na sefydliadau, yn uniongyrchol neu'n drwy gyfeirio at fanylion am y cyfranogwr neu'r sefydliad a fyddai'n fodd i'w hadnabod. Yn yr un modd, dylid nodi'n glir ar y Daflen Gwybodaeth i Gyfranogwyr y cedwir data a geir gan gyfranogwyr yn gyfrinachol ac y glynir at hynny oni bai bod gofynion eithriadol yn mynnu bod y wybodaeth yn cael ei datgelu e.e. pryderon ynghylch diogelu neu "prevent". Mewn achosion o'r fath, dylai ymchwilwyr ddweud wrth eu goruchwylydd neu eu rheolwr am eu pryderon yn gyntaf.

Rhaid defnyddio dulliau priodol i gasglu a chadw data'n ddiogel, er mwyn sicrhau cyfrinachedd a sicrhau na chaiff enwau eu datgelu, fel yr addawyd i'r cyfranogwyr, a rhaid i'r dull a ddefnyddir i gadw'r data gydymffurfio â Pholisi GLlM o ran Diogelu Data.

Dylai cyfranogwyr gael gwybod sut y bwriedir defnyddio a lledaenu eu data, gan gynnwys pwy fydd yn cael gweld y canfyddiadau a/neu'r adroddiadau a gyhoeddir ar yr ymchwil. Dylid cynnwys y wybodaeth hon yn y wybodaeth a roddir i gyfranogwyr cyn iddynt gymryd rhan yn yr ymchwil.

### 3.5 Iechyd a Diogelwch

Rhaid i bob ymchwil gydymffurfio â Pholisi Grŵp Llandrillo Menai o ran Iechyd a Diogelwch. Mae diogelwch cyfranogwyr ac ymchwilwyr yn hollbwysig. Dylid cynnwys asesiad o'r risgiau ar y Ffurflen REA1.

## 4. Ystyriaethau Pellach

### 4.1 Eiddo Deallusol

Ym Mholisi GLlM ar Hawliau o ran Eiddo Deallusol, amlinellir yr hawliau o ran eiddo deallusol mewn perthynas ag ymchwil a gynhelir gan staff a myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai. Yn ogystal, gweler Polisi GLlM o ran Hawlfraint.

### 4.2 Monitro ac Archwilio

Bydd Pwyllgor Moeseg Academaidd yr Adran yn adolygu ac yn craffu ar ymchwil a gynhelir. Os bydd unrhyw agwedd ar yr ymchwil yn destun pryder, cyfrifoldeb y rhai sy'n gysylltiedig â'r ymchwil (ymchwilwyr a chyfranogwyr) yw rhoi gwybod i Gadeirydd y PMA perthnasol. Yn ystod yr ymchwil, mae'n hanfodol cadw at y cais a gymeradwywyd gan y PMA.

### 4.3 Adolygu gwaith eich gilydd

Mae GLlM yn cydnabod bod adolygiadau gan gymheiriaid yn rhan annatod o'r broses ymchwilio a chefnoga'r broses hon mewn sawl ffordd. Gellir cyfethol staff sydd â chymwysterau priodol ar y PMA er mwyn rhoi cyngor ar geisiadau am gymeradwyaeth mewn perthynas â Moeseg Ymchwil. Yn ogystal, cynghorir ymchwilwyr i gael cymorth cydweithwyr sydd â chymwysterau priodol, gan ofyn iddynt fod yn fentoriaid cymheiriaid iddynt ac adolygu eu hymchwil yn rheolaidd. Os bydd unrhyw

agwedd ar yr ymchwil yn destun pryder, dylid trafod y pryderon hynny gyda'r ymchwilydd a'u dwyn i sylw Cadeirydd PMA yr Adran.

### 4.4 Cyhoeddi ac Awduraeth

Mae gan ymchwilwyr ddyletswydd i roi gwybod am eu canfyddiadau a rhydd GLlM gyfle i gyhoeddi'r ymchwil yn ei Gyfnodolyn Ysgolheictod ac Ymchwil mewnol ('Rhagflas'). Anogir ymchwilwyr i gyflwyno papurau i'w cynnwys yng Nghyfnodolyn GLlM ac i gyfeirio at bolisi GLlM ynghylch Hawliau mewn perthynas ag Eiddo Deallusol wrth ystyried cyhoeddi eu canfyddiadau mewn Cyfnodolion y tu allan i'r coleg.

Dylid datrys unrhyw faterion sy'n ymwneud ag awduraeth cyn dechrau ymchwilio, a dylid ymgynghori'n briodol â'r rhai y dynodwyd eu bod yn awduron dilys cyn cyflwyno'r canfyddiadau i'w cyhoeddi.

## 5. Camymddwyn mewn perthynas ag Ymchwilio

Mae camymddwyn mewn perthynas ag ymchwilio'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig, i'r meysydd canlynol:

a) Ffugio;
b) Anwirio;
c) Camddehongli data a/neu fuddiannau a/neu gyfranogiad;
d) Llên-ladrad;
e) Peidio â dilyn trefnau cydnabyddedig na chymryd digon o ofal wrth gyflawni dyletswyddau er mwyn atal y canlynol rhag wynebu risgiau neu beryglon afresymol:
   - pobl;
   - anifeiliaid a ddefnyddir mewn ymchwil; a'r
   - amgylchedd;
f) Trin yn amhriodol wybodaeth freintiedig neu breifat a gasglwyd yn ystod yr ymchwil am unigolion. (UK RIO 2009)

Cyfrifoldeb yr ymchwilydd yw gwybod beth yw natur y camymddwyn mewn perthynas ag ymchwilio. Mae gan unrhyw un sy'n gysylltiedig ag ymchwil (h.y. ymchwilydd, cyfranogwr, mentor cymheiriaid, goruchwylydd ac ati) ddyletswydd i roi gwybod, yn gyfrinachol, i'r rheolwr neu'r uwch reolwr priodol, neu i Gadeirydd y PMA perthnasol, am unrhyw gamymddwyn a amheuir mewn perthynas ag ymchwilio. Ymdrinnir â honiadau o'r fath yn unol â Pholisi GLlM mewn perthynas ag Arferion Annheg, Polisi GLlM ynghylch Disgyblu Staff a/neu'r Polisi Disgyblu Dysgwyr, fel y bo'n briodol.

*DOGFENNAU CYFEIRIO*

*Swyddfa Uniondeb Ymchwil y Deyrnas Unedig, 2009. Code of Practice for Research. [Ar-lein] Llundain: Aldridge Press. Ar gael yn: http://ukrio.org/publications/code-of-practice-for-research/1-0-introduction/*

### Monitro a Mesur Effaith

Bydd Cynorthwyydd Gweinyddol pob Pwyllgor Moeseg Academaidd yn cadw'n ddiogel gofnod o bob cais a gyflwynir, o bob adborth ac o bob canlyniad yn unol â Rheoliad Cyffredinol GLlM ar Ddiogelu Data. Bob blwyddyn, bydd Cadeirydd pob PMA yn llunio adroddiad monitro a fydd yn sail i'r adroddiadau diweddaru a gyflwynir i Uwch Reolwyr GLlM.

### Cyhoeddi'r Polisi

Bydd y polisi hwn ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd ar wefan y Grŵp ac ar amgylcheddau rhithwir y rhaglenni AU, a bydd ar gael i holl aelodau'r staff ar Borth y Grŵp.

### Cymeradwywyd y Polisi gan:

Dyddiad cymeradwyo'r Polisi:
Dyddiad adolygu'r Polisi:

POLISI GRŴP LLANDRILLO MENAI (GLlM) YNGHYLCH MOESEG YMCHWIL YM MAES ADDYSG UWCH

GWEITHDREFNAU, TEMPLEDI AC ARWEINIAD

Cynnwys | Rhif Tudalen


| Cynnwys | Rhif Tudalen |
|---|---|
| Cyfrifoldebau | 12 |
| Y Pwyllgorau Moeseg Academaidd (PMA) | 13 |
| Canllawiau a fydd yn gymorth i lenwi'r ffurflen gais Moeseg Ymchwil (REA1) | 16 |
| Ffurflen cyflwyno cais i Bwyllgor Moeseg Ymchwil (REA1) | 20 |
| Atodiad 1: Enghraifft o Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr yn achos Holiadur | 27 |
| Atodiad 2: Enghraifft o Ffurflen Ganiatâd Cyfranogwr yn achos Cyfweliad | 28 |
| Atodiad 3: Enghraifft o Lythyr Caniatâd Porthgeidwad yn achos Holiadur | 29 |
| Atodiad 4: Enghraifft o Ffurflen Asesu Risgiau | 30 |

**Cyfrifoldebau**

1. **Y Penaethiaid Cynorthwyol neu'r Cyfarwyddwr Addysg Uwch sy'n gyfrifol am gadeirio'r Pwyllgorau Moeseg Academaidd (PMA).** Byddant yn sicrhau:
    - y sefydlir Pwyllgor Moeseg Academaidd, sy'n cynnwys aelodau priodol, a bod hyn yn bodloni'n briodol anghenion eu maes/meysydd rhaglen;
    - Ymlynir wrth y cylch gorchwyl a'r prosesau monitro ac adolygu (gan gynnwys adolygiadau brys fel y bo'n briodol) a gofnodwyd yn glir.

2. **Rheolwyr Maes Rhaglen sy'n gyfrifol:**
    - bod yr holl staff academaidd perthnasol yn ymwybodol o'r trefniadau adolygu moesegol lleol ac o'u cyfrifoldebau eu hunain;
    - a bod y rhain a chyfrifoldebau'r dysgwyr yn cael eu cyfleu'n briodol i'r staff a'r dysgwyr;
    - eu bod yn cefnogi ac yn goruchwylio tiwtoriaid a goruchwylwyr ymchwil yn ddigonol yn eu meysydd academaidd gyda ffocws ar brofiad myfyrwyr, anghenion datblygu staff a gallu staff i ddarparu cymorth priodol i fyfyrwyr.

3. **Mae tiwtoriaid a goruchwylwyr sy'n ymwneud ag ymchwil yn gyfrifol am:**
    - sicrhau bod yr ymchwilydd yn ymwybodol o'r gweithdrefnau, y dogfennau a'r gofynion mewn perthynas â Moeseg Ymchwil (a lle mae dod o hyd i ddogfennau perthnasol).
    - darparu cymorth a goruchwyliaeth amserol o ansawdd uchel i fyfyrwyr y mae ganddynt gyfrifoldeb academaidd drostynt;
    - adrodd am unrhyw bryderon yn brydlon i'r PMA neu eu rheolwr Maes Rhaglen;
    - trefnu, gyda chynorthwyydd gweinyddol y PMA, ddyddiadau pan fydd eu myfyrwyr yn barod i gyflwyno eu cynigion ymchwil i'r PMA a sicrhau bod y myfyrwyr yn ymwybodol o'r dyddiadau hyn ac yn gweithio tuag atynt;
    - cynghori myfyrwyr ymchwil ynghylch eu methodoleg arfaethedig a'r modd y rhoddant egwyddorion moesegol ar waith;
    - cefnogi cynigion ymchwil y myfyrwyr, eu cadarnhau'n amodol, a throsglwyddo pob un i gynorthwyydd gweinyddol y PMA, yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni, er mwyn eu dwyn i sylw'r PMA.
    - derbyn, cefnogi a rhoi adborth y PMA i fyfyrwyr ymchwil unigol yn ddi-oed.

    Pan fydd y tiwtor yn fodlon bod y cais yn barod, bydd ef (neu'r Rheolwr Maes Rhaglen) yn ei drosglwyddo i'r PMA priodol i'w ystyried. Wedi i'r PMA ystyried y cais, anfonir y canlyniad yn ôl at y **tiwtor neu'r goruchwylydd**, a fydd yn trafod hyn fel y bo'n briodol gyda'r ymchwilydd, gan sicrhau bod yr ymchwilydd, pan fydd angen ailgyflwyno cais, yn deall beth sydd angen sylw ac erbyn pryd y mae gofyn gwneud hynny.

4. **Mae'r ymchwilwyr yn gyfrifol am:**
    - gael cyngor gan diwtor neu oruchwylydd y modiwl Dulliau Ymchwilio ar gynllunio, cynnal a chwblhau eu hymchwil;
    - cyflwyno eu cynnig ymchwil i diwtor y modiwl Dulliau Ymchwilio, gan ddilyn yr amserlen y cytunwyd arni, er mwyn i'r PMA perthnasol ei ystyried;
    - lle bo hynny'n briodol, ar ôl cael sêl bendith y PMA, cael sêl bendith bellach (a all gynnwys cymeradwyaeth foesegol) gan sefydliad e.e. y Bwrdd Iechyd, pan fydd ymchwilydd yn bwriadu casglu data ymchwil gan staff, cleifion, rhai sy'n gofalu am gleifion, neu ddefnyddwyr y gwasanaeth;
    - cymryd yr awenau wrth godi pryderon neu ddatrys problemau yn unol â'r cynllun a'r asesiad risg a gymeradwywyd gan y PMA;
    - cadw bob amser at y gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol;
    - cynnal yr ymchwil mewn modd moesegol a phroffesiynol.

## Y Pwyllgorau Moeseg Academaidd (PMA)

Mae'r Pwyllgor Moeseg Academaidd (PMA) yn grŵp priodol ym 'maes' pob pennaeth cynorthwyol / Cyfarwyddwr Addysg Uwch sy'n gyfrifol am adolygu cynigion ymchwil er mwyn sicrhau y perchir urddas, hawliau a lles y cyfranogwyr a phawb arall sy'n gysylltiedig neu a allai fod yn gysylltiedig â'r ymchwil. Mae 'maes' fel arfer yn cyd-fynd â strwythur Bwrdd Dyfarnu Addysg Uwch GLlM. Fodd bynnag, gellir cyflwyno ymchwil arfaethedig i gadeirydd PMA sydd â chyfrifoldeb arwain uwch neu ruglder yn y Gymraeg. Rhaid i gadeirydd hefyd gadeirio byrddau arholi AU. Bydd unrhyw gadeirydd PMA nad yw wedi cadeirio PMA yn flaenorol yn cael hyfforddiant gyda'r Cyfarwyddwr Addysg Uwch cyn cadeirio PMA.
Bydd ymchwil allanol neu ymchwil arfaethedig y tu allan i strwythur y bwrdd dyfarnu yn cael ei gyfeirio at y PMA dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Addysg Uwch.

Mae’r Pwyllgorau Moeseg Academaidd yn gyfrifol am:

- y broses adolygu moesegol sy'n gysylltiedig â chynnal ymchwil;
- penodi aelodau'r PMA er mwyn sicrhau bod y grŵp yn cynnwys arbenigedd, cwmpas ac amrywiaeth briodol i fodloni'r meysydd ymchwil sy'n rhan o'i gylch gorchwyl;
- sicrhau bod amserlenni clir i gyfarfodydd a'u bod yn addas i'w pwrpas, ac y rhoddir gwybod amdanynt;
- sicrhau bod polisïau, canllawiau a ffurflenni perthnasol a phriodol i'r PEM hwnnw ar gael yn hwylus;
- cadw cofnod o bob cais a gyflwynir, o bob cais a ailgyflwynir ac o'r canlyniadau.

Yn unol â phroses y PMA, bydd gofyn i ymchwilwyr gyflwyno eu cynigion yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd gwybod amdanynt, a rhoddir adborth i'r tiwtor perthnasol i'w drosglwyddo i'r ymchwilydd ymhen wythnos ar ôl cyfarfod y PMA.

Dyma rai penderfyniadau y gall y PMA ddod iddynt:

- Cymeradwyo'r cynnig ymchwil
- Cymeradwyo'r cynnig ymchwil gan wneud argymhellion
- Peidio â chymeradwyo'r cynnig ymchwil, gan osod amodau (mewn perthynas ag ailgyflwyno'r cais i'r PMA)
- Peidio â chymeradwyo'r cynnig ymchwil gan osod amodau, ond gellir ailgyflwyno'r cais i Gadeirydd y PMA ar gyfer Adolygiad Brys

Os bydd gofyn i ddysgwr ailgyflwyno ei gynnig, dylai fynd i'r afael â hyn ar unwaith gyda'i diwtor, gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion o ran fformatio (gweler yr adran amodau ar ffurflen adborth y PMA fel y'i dychwelwyd i'r myfyriwr).

Os dynodir bod angen adolygiad brys, dylid ailgyflwyno'r cynnig (gan gadw at y gofynion o ran fformat), a bydd Cadeirydd y PMA yn edrych arno ymhen pythefnos i'r dyddiad y'i cyflwynwyd.

**Ni ellir cynnal unrhyw ymchwil hyd nes y bydd y cynnig ymchwil wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol.**

### Pwyllgor Moeseg Academaidd (PMA) GLlM

Aelodaeth

- Pennaeth Cynorthwyol / Cyfarwyddwr Addysg Uwch (Cadeirydd)
- Rheolwyr Maes Rhaglen Perthnasol
- Arweinydd Rhaglen sy'n cyflwyno neu Diwtor Modiwl
- Aelod ychwanegol o Dîm Rheoli'r Grŵp nad yw'n gysylltiedig â'r maes academaidd

- Staff academaidd perthnasol eraill fel y bo'n gymwys
- Cynorthwyydd Gweinyddol y PMA


Pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd

- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn academaidd er mwyn hwyluso prosesu ffurflenni REA1 o feysydd rhaglen perthnasol
- Dyddiadau cyfarfodydd i'w pennu erbyn dechrau tymor addysgu Addysg Uwch cyntaf, bob blwyddyn academaidd

Cylch Gorchwyl

1. Sicrhau cywirdeb yr ymchwilio a wneir yn GLlM.
2. Adolygu'r holl gynigion ymchwil a gyflwynir o fewn meysydd cyfrifoldeb y PMA
3. Sicrhau bod pob cynnig ymchwil a gymeradwyir yn cadw at egwyddorion, polisïau, gweithdrefnau a phrosesau GLlM o ran Moeseg Ymchwil.
4. Sicrhau bod meysydd sy'n cynnig ymchwil yn adolygu a monitro Ceisiadau REA1 mewn modd effeithlon ac effeithiol.

## Enghraifft o broses adolygu moesegol mewn maes rhaglen



## Canllawiau a fydd yn gymorth i lenwi'r ffurflen gais Moeseg Ymchwil (REA1)

Prif nod y Pwyllgor Moeseg Academaidd (PMA) yw sicrhau nad yw eich cynnig yn debygol o fynd yn groes i unrhyw ganllawiau moesegol sy'n gysylltiedig â chynnal ymchwil. Bydd y PMA yn gwneud sylwadau ac yn gwrthod cynigion ymchwil o bryd i'w gilydd pan fydd o'r farn nad yw ansawdd yr ymchwil arfaethedig yn dderbyniol.

Mae angen cynnal Adolygiad Moesegol o bob cynnig ymchwil er mwyn sicrhau bod y risgiau i bawb yn cael eu lleihau. Gall y risgiau a ystyrir gynnwys risgiau i'r:

- Cyfranogwyr
- Y rhai sy'n gysylltiedig â'r cyfranogwyr
- Grwpiau neu unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth
- Unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â'r ymchwil neu sy'n destun yr ymchwil
- Yr ymchwilydd
- GLlM

Mae gofyn i chi wneud yn siŵr bod y wybodaeth a gyflwynwch yn ddigon manwl a chlir i'r pwyllgor ddeall yn llawn yr hyn y bwriadwch ei wneud, er mwyn iddo ddod i benderfyniad. ⍰ ⍰

Yn benodol, mae gofyn rhoi ystyriaeth lawn i'r canlynol:

- Diogelu cyfranogwyr rhag niwed (gan gynnwys gofid seicolegol)
- Cydsyniad a seiliwyd ar wybodaeth
- Yr Hawl i Dynnu'n Ôl
- Cyfrinachedd a Pheidio â Datgelu Enwau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb pob rhan o'r REA1. Os oes rhai nad ydynt yn berthnasol i'ch ymchwil arfaethedig, ysgrifennwch 'amherthnasol'.

### Cwestiwn 1

- Gwnewch yn siŵr fod cysylltiad priodol rhwng a) a b).
- ⍰Fel egwyddor gyffredinol, osgowch gwestiwn ymchwil y credwch eich bod yn gwybod yr ateb iddo oherwydd eich profiad personol; byddwch yn debygol o ddangos rhagfarn wrth ymchwilio.

### Cwestiwn 2

- Dylech gynnwys y dull(iau) yr ydych yn ei ddefnyddio/eu defnyddio e.e. arbrawf, cyfweliad, holiadur, arsylwi.
- Eglurwch yn union beth yr ydych yn mynd i'w wneud
- Dylech gynnwys dolennau i'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'ch ymchwil
- Gallai hyn gynnwys y cwestiynau y bwriedir eu gofyn (e.e. yn y cyfweliad neu ar yr holiadur), y taflenni cofnodi (e.e. wrth arsylwi), a chyfarwyddiadau i gyfranogwyr (e.e. ar gyfer cynnal arbrawf). ⍰ ⍰
- Dylech gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol ynghylch sut yr ydych yn cofnodi'ch canlyniadau e.e. nodiadau mewn llawysgrifen, blychau i'w ticio, recordydd tâp ac ati. Os oes disgwyl i gyfranogwyr ddychwelyd rhywbeth (e.e. holiadur ysgrifenedig) atoch, mae gofyn i chi egluro sut y dylent wneud hynny.

### Cwestiwn 3

Mae'n hanfodol bod yn fanwl yma. Dywedwch pwy'n benodol fydd yn cymryd rhan, sut y byddwch yn eu recriwtio a faint fydd yn cymryd rhan.

- Noder: Os ydych yn bwriadu cynnal eich ymchwil yn y coleg, mae gofyn i chi gofio bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr rhwng 16 a 18 oed, felly os ydych yn astudio pobl 18oed+, bydd gofyn i chi egluro sut y byddwch yn sicrhau hyn.

- Os yw'ch sampl wedi'i gyfyngu oherwydd y lleoliad lle'r ydych yn cynnal yr astudiaeth e.e. staff sefydliad penodol, eglurwch hynny yn yr adran hon.
- Peidiwch â bod yn rhy uchelgeisiol o ran maint y sampl. Gofynnwch i'ch tiwtor/goruchwylydd.

Question 4

- Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn 'adnabod' y cyfranogwyr (yn gyffredinol, mae'n well os nad ydych), ond mae modd goresgyn hyn. Gofynnwch i'ch tiwtor am gyngor.
- Os ydych wedi dweud wrthynt y byddant yn anhysbys, peidiwch â gofyn am enwau pobl (nac am wybodaeth arall a fyddai'n ei gwneud yn bosibl eu hadnabod).
- Peidiwch ag enwi sefydliad a pheidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai arwain at adnabod sefydliad.
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd llwyr gan y bydd nifer o bobl yn gweld yr ymchwil ysgrifenedig. Sicrhewch fod cyfranogwyr yn ddienw ac nad oes manylion a allai beri i rywun eu hadnabod.

Cwestiwn 5

- Mae gofyn i chi roi digon o wybodaeth i bobl er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad cytbwys a ydynt am gymryd rhan ai peidio. Nid oes arnynt angen pob manylyn – dim ond digon i wneud penderfyniad cytbwys. Yn Atodiad 1, ceir enghraifft o daflen wybodaeth y gellir ei rhoi i rai fydd yn ateb holiadur.
- Mae'n bosibl y bydd gofyn i gyfranogwyr allu penderfynu tynnu'n ôl yn nes ymlaen, heb unrhyw ganlyniadau negyddol. Meddyliwch am hyn wrth gynllunio. Os ydynt yn wirioneddol anhysbys, ni fyddant yn gallu tynnu'n ôl wedi i'w data gael ei gasglu.
- Ystyriwch pa ffordd fyddai'n fwyaf priodol i gael cydsyniad ar gyfer eich dull ymchwilio a chan eich cyfranogwyr penodol chi. Mae'n debygol y bydd gofyn i chi gael ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi gan y cyfranogwyr, a gall y bydd gofyn i chi gael cydsyniad rheolwr a/neu borthgeidwad.
- Yn achos holiaduron neu arolygon ar-lein, e.e. Survey Monkey, cymerir bod cyfranogwyr yn cydsynio wrth eu llenwi.

Cwestiwn 6

- Mae gofyn i chi sicrhau eich bod yn cael caniatâd priodol i gynnal yr astudiaeth gan 'borthgeidwad' e.e. yn y Coleg, mewn Canolfan Hamdden, mewn adeiladau cyflogwyr, mewn llyfrgell ac ati Gwnewch yn siŵr fod gennych lythyr/ffurflen briodol ar gyfer hyn a'ch bod wedi rhoi digon o wybodaeth i'r porthgeidwad i'w alluogi i ddod i benderfyniad cytbwys.
- Gwiriwch eto nad oes gwallau teipio mewn unrhyw ohebiaeth allanol.
- Bydd angen cydsyniad trydydd parti bob amser gan awdurdod priodol os ydych yn astudio plant neu oedolion agored i niwed.

Question 7

- Ble fyddwch chi'n gwneud hyn? Er enghraifft, ar y rhyngrwyd, yn y gwaith ac ati ... mae angen rhoi'r manylion llawn.

Cwestiwn 8

- Mae hyn yn hanfodol bwysig e.e. os ydych yn ymchwilio i bynciau fel dosbarth cymdeithasol, cyrhaeddiad academaidd, gordewdra, magu plant, agweddau yn y gweithle (ynghylch bron popeth), rhywedd, neu ddulliau gofalu.
- Gall ymchwil weithredol fod yn heriol gan fod gofyn ystyried canlyniadau posibl (yn cynnwys canlyniadau bwriadol ac anfwriadol) ymyrraeth e.e. mewn lleoliadau addysgol, busnesau, meysydd Adnoddau Dynol, Gofal Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae gofyn i chi feddwl o ddifrif am hyn ac am sut y gallwch leihau unrhyw sensitifrwydd a sicrhau y caiff pobl eu diogelu – a dylid cynnwys hynny yn eich Asesiad Risg.
- Yn eich asesiad o'r risgiau, dylech nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ymchwil, gan reoli'r risgiau hynny'n effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu lleihau i'r eithaf. Ystyriwch risgiau a allai gael effaith ar:

- Y cyfranogwyr
- Yr ymchwilydd (h.y. chi)

- Y sefydliad (os yw'n briodol)
- Y datgeliad - gallai fod yn ddiogelwch neu ansawdd.

Yn Atodiad 2, ceir enghraifft o ffurflen Asesu Risgiau.

- Mewn rhai meysydd ymchwil penodol e.e. sy'n ymwneud â gwaith ymarferol, efallai y bydd angen asesiad risg ychwanegol hefyd.

Cwestiwn 9

- Mae'r hawl i dynnu'n ôl yn bwysig – ond nid oes pwrpas addo y bydd cyfranogwyr yn anhysbys a dweud wrthynt y gallant dynnu eu canlyniadau'n ôl unrhyw adeg wedyn gan na fyddwch yn gallu adnabod eu hymatebion. Felly, lle bynnag y bo'n berthnasol, meddyliwch yn ofalus sut y gallwch wneud yn siŵr bod y cyfranogwyr yn gallu tynnu'n ôl, heb unrhyw ganlyniadau negyddol, unwaith y byddant wedi cytuno i gymryd rhan e.e. ymchwil a gynhelir mewn ystafell ddosbarth.

Canllawiau Eraill

- Peidiwch â chynnwys gwybodaeth ddamcaniaethol na gwybodaeth arall ac eithrio'r hyn y gofynnir amdano uchod.
- Gwnewch yn siŵr fod yr holl ddogfennau ychwanegol yn cael eu cyflwyno (os nad oes eu hangen ar gyfer eich astudiaeth, gwiriwch gyda'ch tiwtor/goruchwylydd ac ysgrifennwch 'amherthnasol').

Rhesymau cyffredin dros beidio â chymeradwyo cais o safbwynt moesegol y tro cyntaf:

### Rhesymau moesegol –

- Dim cydsyniad perthnasol wedi'i sicrhau (a dim dogfennau cysylltiedig).
- Yr asesiad risg yn arwynebol a ddim yn mynd i'r afael â'r risgiau penodol (e.e. yn nodi 'torri'r croen gyda phapur' a 'brifo wrth ddefnyddio styffylwr' ar holiaduron ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a anfonir at rieni).
- Y cwestiwn ymchwil yn rhy sensitif i'w gyfiawnhau ar y lefel hon.
- O safbwynt ymarferol, y manylion cynllunio'n destun pryder y mae gofyn mynd i'r afael ag ef.

### Rhesymau eraill —

- Ddim wedi addasu dogfennau enghreifftiol fel eu bod yn cyfeirio at ddarn gwahanol o ymchwil ee asesiad risg, gwybodaeth cyfranogwyr.
- Cwestiynau rhagfarnllyd neu arweiniol sy'n dangos barn yr ymchwilydd yn glir.
- Ddim wedi cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol.
- Gwybodaeth anghyflawn e.e. am gyfranogwyr, neu am y wybodaeth a roddir i gyfranogwyr.
- Yn anodd i'r pwyllgor ddeall beth mae'r ymchwilydd yn bwriadu ei wneud – oherwydd diffyg manylion neu oherwydd gwybodaeth anghyson e.e. dim cysylltiad rhwng yr amcanion a chwestiwn yr ymchwil/ y cwestiynau sydd mewn holiadur.
- Y dull ymchwilio'n wallus ac felly, ni ellir ei gyfiawnhau.
- Cynnig rhy uchelgeisiol – ddim yn ymarferol.

### Y Camau Nesaf

- Bydd eich tiwtor/goruchwylydd yn eich cynorthwyo gyda'r ffurflen a ddefnyddir i gyflwyno cais i Bwyllgor Moeseg Ymchwil (REA1).
- Ar ôl i chi ei llenwi, cyflwynwch eich REA1 i'ch tiwtor/goruchwylydd (a fydd wedi rhoi arweiniad i chi ynghylch y dyddiad cyflwyno a'r fformat i'w ddefnyddio).
- Wedi i'r tiwtor gymeradwyo cais, bydd yn ei drosglwyddo i'r PMA priodol i'w ystyried

Ffurflen cyflwyno cais i Bwyllgor
Moeseg Ymchwil (REA1)

Pwysig

1. Gofynnir yn garedig i chi lenwi adrannau A, B ac C y REA1.
2. Cofiwch ddefnyddio'r Canllawiau (tudalennau 13-16) i'ch helpu i wneud hyn.
3. Bydd gofyn i chi gyflwyno'r ffurflen REA1 i'ch Tiwtor/Goruchwylydd perthnasol erbyn y dyddiad y cytunwyd arno.

Grŵp Llandrillo Menai

Ffurflen cyflwyno cais i Bwyllgor Moeseg Ymchwil

(Ffurflen REA1)

| ADRAN A | |
|---|---|
| Enw'r Ymchwilydd: | |
| Rhif Adnabod y Myfyriwr: | |
| Blwyddyn academaidd: | |
| Tiwtor/Goruchwylydd: | |

| ADRAN B | |
|---|---|
| 1a) | Beth yw'r cwestiwn/cwestiynau ymchwil y bwriadwch ymchwilio iddo/iddynt? |
| | |
| 1b) | Beth yw amcanion eich astudiaeth? |
| | |

| 2a) | Pa ddull/ddulliau vdvch chi'n bwriadu ei ddefnvddio/eu defnvddio? |
|---|---|
| | |

| 2b) | Eglurwch yr hyn y bwriadwch ei wneud: |
|---|---|
| | |

| 2c) | Dylech gynnwys copi o'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'ch ymchwil<br>Enwch y ddogfen/dogfennau yma: |
|---|---|

| Nodwch a yw'r dogfennau ychwanegol a ganlyn wedi'u cynnwys: | Ydyn | Amherthnasol |
|---|---|---|
| Copïau o ddogfennau perthnasol e.e. cwestiynau y bwriedir eu gofyn, amserlen arsylwi, cyfarwyddiadau ar gyfer arbrofion, cwestiynau cyfweliad drafft | | |
| Taflenni Atebion/Data | | |
| Gwybodaeth i gyfranogwyr | | |
| Ffurflen Gydsynio (cyfranogwyr) | | |
| Ffurflen Gydsynio (eraill perthnasol) | | |
| Asesu Risgiau | | |
| Arall, nodwch | | |

| 2d) | Sut byddwch yn casglu ac yn cofnodi'ch data? |
|---|---|
| | |

| Gwybodaeth am Gyfranogwyr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3a) | Pwy fydd yn cymryd rhan? | | | | |
| | | | | | |
| 3b) | A fydd unrhyw rai o'r cyfranogwyr: | | | | |
| | Dan 16 oed | Bydd | | Na fydd | |
| | 16-18 | Bydd | | Na fydd | |
| | Oedolion sy'n Agored i Niwed? | Bydd | | Na fydd | |
| | A ydych wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd? | Ydw | | Nac ydw | |
| 3c) | Sut byddwch yn recriwtio'ch cyfranogwyr? | | | | |
| | | | | | |
| 3d) | Faint o gyfranogwyr fydd yn eich sampl? | | | | |
| | | | | | |

| 4a) | Sut byddwch yn sicrhau bod eich cyfranogwyr yn aros yn anhysbys? |
|---|---|
| | |
| 4b) | Sut byddwch yn cadw atebion y cyfranogwyr yn gyfrinachol? |
| | |

| 5a) | Sut byddwch yn sicrhau cydsyniad eich cyfranogwyr |
|---|---|
| | |
| 5b) | Os nad oes angen ffurflen gydsynio, eglurwch sut y byddwch yn cael cydsyniad cyfranogwyr. |
| | |

| Sut byddwch yn sicrhau bod gennych y cydsyniad/caniatâd y mae arnoch ei angen, yn ogystal â chydsyniad eich cyfranogwyr? | |
|---|---|
| 6a) | Cydsyniad sefydliad? |
| | |
| 6b) | Cydsyniad rhiant/gwarcheidwad? |
| | |
| Os oes arnoch angen cydsyniad y ddau uchod, dylech gynnwys ffurflen gydsynio yr un iddynt | |

| | |
|---|---|
| 7a) | Ble bydd yr ymchwil yn cael ei gynnal? |
| | |

| | |
|---|---|
| 8a) | A oes unrhyw faterion arbennig o sensitif yn gysylltiedig â'ch maes ymchwil neu â'ch dull o gasglu data?<br>⍰ Os oes, eglurwch hynny yma: |
| | |
| 8b) | Sut byddwch yn rheoli'r rhain er mwyn sicrhau eich bod yn diogelu'ch cyfranogwyr rhag niwed, gan gynnwys unrhyw ofid posibl (cofiwch gynnwys y rhain yn eich asesiad o'r risgiau)? |
| | |
| 8c) | Cofiwch gynnwys Asesiad o'r Risgiau |
| 8d) | A oes gennych fuddiannau sy'n gwrthdaro â chynnal yr ymchwil hwn? (ticiwch) |

| | |
|---|---|
| Oes | |
| Nac oes | |
| Os oes, ymhelaethwch. | |

| | |
|---|---|
| 9a) | Sut byddwch yn sicrhau bod eich cyfranogwyr yn ymwybodol o'u hawl i dynnu'n ôl ac y gallant arfer yr hawl hwnnw os dymunant? |
| | |

| ADRAN C | | | |
|---|---|---|---|
| **Datganiad personol:** | | | |
| Rwyf wedi darllen Polisi GLlM ar Foeseg Ymchwil Academaidd, a hyd eithaf fy ngwybodaeth a fy ngallu, cadarnhaf yr aethpwyd i'r afael â'r ystyriaethau moesegol priodol.<br>Rwyf yn ymwybodol o weithdrefnau GLlM mewn perthynas â Moeseg Ymchwil ac Iechyd a Diogelwch, ac rwyf yn eu deall.<br><br>Cadarnhaf y byddaf yn cadw at yr holl godau moesegol perthnasol. | | | |
| Llofnod yr ymchwilydd/myfyriwr: | TEIPIWCH EICH ENW | Dyddiad: | |
| Cadarnhaf fy mod wedi adolygu'r cais a'm bod yn cefnogi'r dystiolaeth a'r gwaith a ddarparwyd. | | | |
| Llofnod y Tiwtor/Goruchwylydd: | TEIPIWCH EICH ENW | Dyddiad: | |

| ADRAN D: Taflen adborth gan y PMA | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Moeseg Grŵp Llandrillo Menai | | | | | | |
| COLEG | Llandrillo: | | Meirion-Dwyfor: | | Menai: | |
| Enw’r Myfyriwr: | | | | | | |
| Maes Rhaglen: | | | | | | |
| Dyddiad y Pwyllgor Moeseg: | | | | | | |
| Goruchwylydd sy'n cyflwyno: | | | | | | |
| Cymeradwywyd: | | Cymeradwywyd gydag Argymhellion (ewch i rif 2): | | | | |
| Heb ei Gymeradwyo: | | | | | | |
| Sylwadau: | | | | | | |
| | | | | | | |

| Os na chafodd y cais ei gymeradwyo: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ailgyflwyno a chynnal adolygiad brys: | Ydw | | Nac ydw | |
| 1. | Amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn ailgyflwyno'r cais: | | Yr amodau a fodlonwyd: | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| *Cewch ddefnyddio'r un gwaith papur ond RHAID amlygu unrhyw newidiadau a wnaed er mwyn bodloni'r amodau hyn* | | | | |
| *Dylid ailgyflwyno mewn e-bost drwy diwtor y modiwl a fydd yn anfon y cais ymlaen at Gynorthwyydd Gweinyddol y PMA.* | | | | |
| 2. | Argymhellion (argymhellir bod y rhain yn cael eu cyflawni) | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| Llofnod: | | Dyddiad: | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg Academaidd | | | | |

## ATODIAD 1: ENGHRAIFFT O DAFLEN WYBODAETH I GYFRANOGWYR YN ACHOS HOLIADUR

<table>
<tr><th colspan="2">Enghraifft o Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr ar gyfer<br>Holiadur</th></tr>
<tr><td colspan="2">(Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn prosiect ymchwil. Cyn penderfynu a fyddwch yn cymryd rhan ai peidio, mae'n bwysig eich bod yn deall pam y cynhelir yr ymchwil a beth fydd yn ei olygu. Cymerwch eich amser i ddarllen y wybodaeth a ganlyn yn ofalus.)</td></tr>
<tr><td>Teitl y Prosiect Ymchwil:</td><td>XXXXXXXXXXXXXX</td></tr>
<tr><td>Enw'r ymchwilydd/ymchwilwyr:</td><td>XXXXXXXXXXXXXX</td></tr>
<tr><td>Beth yw pwrpas yr astudiaeth hon?</td><td>(Pwrpas y prosiect ymchwil hwn yw ...)</td></tr>
<tr><td>Pam y cefais fy ngwahodd i gymryd rhan?</td><td>(Fe'ch gwahoddwyd i gymryd rhan am...).</td></tr>
<tr><td>A oes raid i mi gymryd rhan?</td><td>(Na, eich dewis chi yw cymryd rhan yn y prosiect ymchwil hwn neu beidio. Nid oes gorfodaeth arnoch i gymryd rhan. Os nad ydych am gymryd rhan, nid oes raid i chi roi rheswm. Os cytunwch i gymryd rhan, byddwch yn rhydd i dynnu'ch enw'n ôl unrhyw bryd, heb roi rheswm a heb gael eich cosbi Gan eich bod yn cymryd rhan yn ddienw, ni ellir tynnu eich atebion yn ôl wedi i chi gyflwyno'ch holiadur.)</td></tr>
<tr><td>Pryd a lle bydd yr ymchwil yn cael ei gynnal?</td><td>(Ar safle Coleg Llandrillo yn Llandrillo-yn-Rhos. Gofynnir i chi ddod i ystafell G45 am 10.00 ddydd Mawrth, 25 Chwefror ...)</td></tr>
<tr><td>Beth fydd gofyn i mi ei wneud os cytunaf i gymryd rhan?</td><td>(Ar ôl i chi ddarllen y daflen wybodaeth, gofynnir i chi:<br>1. *<br>2. **<br>3. ***</td></tr>
<tr><td>Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd?</td><td>(Bydd yn cymryd oddeutu 10 munud i chi lenwi’r holiadur/ac ati).</td></tr>
<tr><td>Os gwnaf gymryd rhan, a fydd fy nghyfraniad yn cael ei gadw'n gyfrinachol?</td><td>(Os cytunwch i gymryd rhan, ni ddatgelir eich enw i bartïon eraill. Defnyddir eich atebion i'r cwestiynau i bwrpas y prosiect ymchwil yn unig. Gellir eich sicrhau y byddwch yn aros yn ddienw os byddwch yn cymryd rhan).</td></tr>
<tr><td>Beth yw manteision cymryd rhan?</td><td>(Mae'n bosibl y bydd y prosiect ymchwil o ddiddordeb i chi ac y dewch i ddeall rhagor am y pwnc).</td></tr>
<tr><td>A oes unrhyw anfanteision i gymryd rhan?</td><td>(Nid oes anfanteision canfyddadwy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn yr ymchwil hwn NEU ymhlith anfanteision posibl, mae ...).</td></tr>
<tr><td>Beth fydd yn digwydd i'r canlyniadau?</td><td>(Caiff eich canlyniadau eu cynnwys mewn adroddiad/ bydd eich canlyniadau’n cyfrannu at aseiniad ysgrifenedig ar gyfer cwrs gradd ym maes ...).</td></tr>
<tr><td>Sut caiff fy nata ei storio?</td><td>(Bydd data'ch holiadur/cyfweliad yn cael ei gadw mewn lle diogel, yn unol â thelerau Polisi GLlM mewn perthynas â Diogelu Data, ac fe'i gwaredir drwy ddefnyddio gwasanaeth gwaredu gwastraff cyfrinachol. ...).</td></tr>
<tr><td>Beth os bydd gennyf gwestiynau am y prosiect ymchwilio?</td><td>(Cewch gyfle i ofyn cwestiynau unrhyw bryd yn ystod yr ymchwil ac ar y diwedd .......).</td></tr>
</table>

## ATODIAD 2: ENGHRAIFFT O FFURFLEN GANIATÂD CYFRANOGWR YN ACHOS CYFWELIAD

<table>
<tr><th colspan="2">ENGHRAIFFT O FFURFLEN GANIATÂD CYFRANOGWR YN ACHOS CYFWELIAD</th></tr>
<tr><td>Teitl y Prosiect:</td><td></td></tr>
<tr><td>Enw'r Ymchwilydd:</td><td></td></tr>
<tr><td>Enw'r Goruchwyliwr:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="2">

- Rwyf wedi darllen y Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr ac rwyf wedi cael eglurhad ar natur a phwrpas y prosiect ymchwil.
- Deallaf bwrpas y prosiect ymchwil a fy rhan i ynddo.
- Deallaf y gellir cyhoeddi gwybodaeth a gesglir yn ystod yr astudiaeth, ond na chaf i fy enwi ac y cedwir fy nghanlyniadau/manylion personol yn gyfrinachol.
- Deallaf y cedwir y data ar gyfrifiadur y mae gofyn cael cyfrinair i'w ddefnyddio, ac mai dim ond gan yr ymchwilydd fydd y cyfrinair hwnnw.
- Deallaf y gallaf dynnu'n ôl o'r prosiect ymchwil unrhyw adeg, heb roi rheswm, ac na fydd hyn yn effeithio ar fy statws yn awr nac yn y dyfodol.
- Deallaf na fyddaf yn gallu tynnu fy enw'n ôl ar ôl cyflwyno fy atebion.
- Mae unrhyw gwestiynau a oedd gennyf am yr ymchwil wedi'u hateb.
- Deallaf y gallaf gysylltu â'r ymchwilydd os wyf am gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil neu os bydd gennyf unrhyw ymholiadau eraill ynghylch fy rhan yn y prosiect.
- Cytunaf i gymryd rhan yn y prosiect ymchwil uchod.

</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Llofnod:</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Printiwch eich enw:</td><td></td><td>Dyddiad:</td><td></td></tr>
</table>

## ATODIAD 3: ENGHRAIFFT O LYTHYR YN GOFYN AM GANIATÂD PORTHGEIDWAD YN ACHOS HOLIADUR

Caniatâd Porthgeidwad

Annwyl Brifathro,

Ar hyn o bryd, rwyf ar flwyddyn olaf fy nghwrs [YCHWANEGWCH DEITL Y CWRS]. Yn rhan o fy astudiaethau, mae gofyn i mi wneud gwaith ymchwil sy'n ymwneud â fy nghwrs. Rwyf wedi penderfynu ymchwilio a oes cysylltiad rhwng y bwyd y bydd plant yn ei fwyta amser cinio yn yr ysgol a'u gallu i ganolbwyntio yn y dosbarth yn ystod y prynhawn. Felly, ysgrifennaf atoch i ofyn am eich caniatâd i gynnal yr ymchwil yn eich ysgol.

Pwrpas fy astudiaeth yw gweld a oes cysylltiad rhwng y pryd bwyd a gaiff plant ganol dydd a'u gallu i ganolbwyntio yn ystod y prynhawn. Felly, gofynnaf am eich caniatâd i arsylwi ar 21 o blant yn dewis eu cinio dros gyfnod o dair wythnos ac i gynnal prawf adnabod bychan ddwywaith yr wythnos yn ystod yr un cyfnod o dair wythnos. Bydd hyn yn fy ngalluogi i gasglu data a allai ddangos unrhyw wahaniaethau yn eu gallu i ganolbwyntio yn sgil eu dewis o ginio.

Os ydych yn fodlon rhoi eich caniatâd i mi gynnal yr ymchwil hwn, byddai arnaf angen llythyr neu neges e-bost gennych yn cydsynio eich bod yn fodlon i'r ymchwil gael ei gynnal yn eich ysgol (neu gallech ddychwelyd y llythyr hwn ataf gan nodi eich bod yn rhoi eich caniatâd). Yna, rhoddaf wybod i chi pa wythnosau y bwriadaf gynnal fy ymchwil. Bydd yr ysgol a'r disgyblion eu hunain yn ddienw a ni chedwir unrhyw gofnodion a fydd yn cynnwys enw'r ysgol na'r lleoliad. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch yr ymchwil hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Gweler yr holiadur sydd wedi'i atodi / dolen yr holiadur.

Yn gywir, [Enw]

[BA Astudiaethau Plentyndod a Chymorth Dysgu]

[Coleg Llandrillo]

## ATODIAD 4: FFURFLEN ASESU RISGIAU

| Asesu Risgiau | | | |
|---|---|---|---|
| Y Risg a Ddynodwyd | Tebygolrwydd | Effaith/Canlyniad Posibl | Rheoli'r Risg |
| *Nodwch y risgiau/peryglon sy'n bresennol* | *Uchel/Canolig/Isel* | *Pwy all gael ei niweidio a sut?* | *Gwerthuswch y risgiau a phenderfynwch ar y rhagofalon e.e. Iechyd a Diogelwch* |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwblhawyd yr asesiad gan: | Siân Pritchard / Angharad Roberts | Dyddiad: | 21.09.2023 |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses? | Mae'r polisi wedi cael mân ddiwygiadau felly nid oes angen newid yr asesiad effaith cydraddoldeb fel y nodir isod.<br><br>Ni chredir y bydd y polisi hwn yn rhoi unrhyw grwpiau a warchodir dan anfantais. Anela'r polisi at hyrwyddo rhagoriaeth o ran arferion moesegol, hybu ymchwil o safon uchel ac atal camymddwyn. Nod y polisi yw sicrhau bod yr holl waith ymchwil a wneir gan staff a myfyrwyr yn parchu pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwnnw, gan lynu at yr egwyddorion moesegol a amlinellir isod. Dylid diogelu urddas, hawliau, diogelwch a lles cyfranogwyr bob amser. | |
| Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses? | Bydd y polisi o fudd i'r holl grwpiau gwarchodedig. Mae'r polisi yn sicrhau dulliau diogelu ychwanegol os oes gofyn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan blentyn, person ifanc neu oedolyn bregus. | |
| A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da? | Ydyw. Mae'r polisi yn sicrhau bod yr holl waith ymchwil a wneir gan staff/ myfyrwyr GLIM yn glynu at egwyddorion moesegol. | |
| A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon? | Nid os cedwir yn llawn at y polisi | |
| A oes polisïau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn? | Nac oes | |
| Casgliad | Parhau â'r polisi neu'r weithdrefn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| LLOFNODWYD: | Angharad Roberts<br>Siân Pritchard | Dyddiad: | 21.09.2023 |

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| Cwblhawyd yr asesiad gan: | Siân Pritchard / Angharad Roberts | Dyddiad: | 21.09.2023 |
|---|---|---|---|

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa effeithiau cadarnhaol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd bobl i ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg? | Nod cyffredinol y polisi yw sicrhau bod pob ymchwil a wneir yng Ngrŵp Llandrillo Menai'n cydymffurfio â'r egwyddorion cyffredinol sy'n gysylltiedig ag ymdrechu i wneud daioni ag osgoi gwneud drygioni.<br><br>Nid yw cynnwys y Polisi'n cael effaith uniongyrchol ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Bydd y polisi ar gael yn ddwyieithog.<br><br>Mae cysylltiad agos rhwng y polisi / gweithdrefn a pholisïau eraill sy’n ymwneud â gweithdrefnau disgyblu (Polisi ynghylch Arfer Annheg GLlM, Polisi Disgyblu Staff GLlM a/neu’r Polisi Disgyblu Dysgwyr) - mae’r holl bolisïau hyn yn cynnwys gwybodaeth am hawliau'r dysgwyr a'r staff i gael mynd drwy’r broses ddisgyblu yn Gymraeg os dymunant. | |
| Pa effeithiau andwyol, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad polisi ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg? | Ni chredir y bydd y polisi'n cael unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg. | |
| A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn?<br>Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, a phryd? | Oes, mae digon o staff sy'n siarad Cymraeg. | |
| A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg Grŵp Llandrillo Menai a'r Hysbysiad Cydymffurfio a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg? | Ydyw. | |
| Casgliad | Parhau â'r polisi neu'r weithdrefn | |

| LLOFNODWYD: | Angharad Roberts | Dyddiad: | 21.09.2023 |
|---|---|---|---|

Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd

| Cwblhawyd yr asesiad gan: | | Dyddiad: | |
|---|---|---|---|

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Sut fydd y polisi hwn yn effeithio ar strategaeth gynaliadwyedd y Grŵp?<br>▯ | | |
| Casgliad | | |

| LLOFNODWYD: | | Dyddiad: | |
|---|---|---|---|